COFNODION CYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 22AIN GORFFENNAF 2019 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Mrs G Baker, B. Barton, C. Brockley, Mrs H. Fleet; C. Hughes, M.A. Jones, Mrs M. Jones; A Khan, C. Matthews, A. Pearson, M. Pickard, P Richards, S Williams, M. Worth.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Rhingyll Debbie Ratcliffe , Heddlu Gogledd Cymru
Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy B. Cossey.

101/19 <u>Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Maer a chyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D. Bradley, D. Howcroft, A. Kealey, A. Mason, Mrs H. Meredith, J. Pearson, Mrs K. Swindon, M. Tasker..

102/19 <u>Cyhoeddiadau gan y Maer:</u>

a) Atgoffwyd yr Aelodau gan y Maer o'r angen am swyddogion traffig gwirfoddol ar gyfer digwyddiadau'r tân gwyllt blynyddol a Sul y Cofio, i wneud yn siŵr bod trefn diogelwch ar yr holl ffyrdd fydd ar gau. Bydd angen o leiaf pedwar o wirfoddolwyr a hyfforddwyd Pennod 8 (Priffyrdd) ar gyfer safleoedd allweddol yn y ddau ddigwyddiad ac fe drefnir hyfforddiant achrededig yn ystod yr haf. Cytunodd y Cynghorwyr C. Matthews ag M. Worth i gael hyfforddiant. Os hoffai / gallai unrhyw Aelod arall cynorthwyo, gofynnir iddynt gysylltu â'r Clerc. Fe nodwyd os na fydd hyn yn bosibl, efallai bydd y Cyngor yn gorfod talu am stiwardiaid hyfforddedig o'r cwmni rheoli traffig.

b) Dywedodd y Maer bod clasbyn ar gefn y gadwyn Faerol wedi torri ac fe'i hanfonir i gael ei drwsio gan gwmni sy'n arbenigo ym maes regalia.

c) Fe gynhelir Diwrnod Agored 'Sied y Dynion' ar y penwythnos yma rhwng 10am a 4pm (Sadwrn a Sul)

ch) Dywedodd y Maer ei fod wedi torri ei goes mewn damwain anffodus yn ddiweddar ond ei fod yn gobeithio parhau gyda'i ddyletswyddau lle bydd hyn yn bosibl.

103/19 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

104/19 <u>Ymwelwyr â'r Cyngor:</u>

a. Croesawyd y Rhingyll Debbie Ratcliffe, Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod gan y Maer er mwyn iddi annerch y Cyngor am faterion yn ymwneud a phlismona lleol ac yn benodol, ar ddatrys problemau.

Dywedodd Debbie bod y Prif Gwnstabl newydd yn awyddus iawn i weld yr Heddlu yn defnyddio 'Community Orientated Problem Solving' (COPS), sy'n mynd a phlismona cymunedol cam ymhellach, ac yn cael cymunedau i ddynodi'r gwir resymau am yr achosion a hefyd i ddarganfod atebion priodol, ac nid o adnoddau cyfyngedig yr heddlu yn unig. Fe hyfforddwyd PCSO'au ac fe ddefnyddir y dull yma'n lleol o hyn ymlaen. Rhannwyd nifer o enghreifftiau, yn cynnwys adroddiadau niferus am fan gyffro a achoswyd drwy'r broblem sylfaenol o unigedd. Daethpwyd ag asiantaethau eraill at ei gilydd i ymdrin â'r unigedd yma, ac o ganlyniad, daeth yr adroddiadau yma i ben. Y cysyniad sylfaenol yw sganio'r broblem i ddarganfod yr achos sylfaenol ac yna edrych am adnoddau cymunedol ehangach i'w datrys.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafwyd sesiwn byr o holi ag ateb, gyda chwestiynau / sylwadau am: ymdrin â phroblemau gan ddefnyddio'r dull o arwain trwy ddatrys y broblem (nad yw'n cael ei ddefnyddio); y cymorth proffesiynol sydd ar gael i gynorthwyo PCSOau.

Diolchwyd i Debbie am fod yn bresennol a gadawodd y cyfarfod.

b. Yna croesawyd Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Conwy B. Cossey i'r cyfarfod gan y Maer ac fe wahoddwyd iddo ef a Chynghorwyr Hughes a Khan i roi adroddiadau / diweddariadau ar unrhyw faterion o'r Cyngor Sir a fyddai o ddiddordeb lleol.

Rhoddodd y Cynghorydd Cossey diweddariad byr am y Pier, gan gadarnhau bod y cwmni lleol Grosvenor Construction Cyf. wedi ennill y cytundeb a'i fod o fewn y gyllideb a glustnodwyd. Disgwylir i'r gwaith cymryd 30 wythnos a'i gwblhau erbyn Pasg 2020

Yna rhoddodd diweddariad byr am benodiad y Cabinet a Chadeiryddion a'r Is-Gadeiryddion a gafodd ei gwblhau erbyn hyn, er cymerodd peth amser i ddod i gytundeb.

Adroddodd y Cynghorydd C. Hughes y bu ychydig o oedi wrth ryddhau'r Cynllun Datblygu Lleol drafft am y cyfnod ymgynghori cyhoeddus o wyth wythnos a dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod yn cynnwys cynlluniau datblygu allweddol i ardal Bae Colwyn.

Penderfynwyd cynnal Cyfarfod Arbennig unwaith i'r cyfnod ymgynghori gychwyn, gyda'r Swyddog Cynllunio yn bresennol i roi trosolwg o'r cynlluniau ac ymateb i unrhyw gwestiynau gan y Cyngor.

Yma atebodd y Cynghorydd Cossey ychydig o gwestiynau byr gan yr Aelodau.

Diolchwyd i Gynghorwyr y Cyngor Sir am eu hadroddiadau ac yna gadawodd y Cynghorydd Cossey'r cyfarfod.

105/19 <u>Cofnodion:</u>

a ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 10fed Mehefin 2019.***

b. ***Penderfynwyd <u>derbyn</u> copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***

i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 18fed Mehefin 2019.

ii. Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 3ydd Gorffennaf 2019 (drafft)
iii. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 9fed Gorffennaf 2019 (drafft.)

106/19 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :</u>

a) **Cofnod 48/19(b) - Promenâd Hen Golwyn:**

Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth Owen Conry, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC), yn cadarnhau bod CBSC wedi comisiynu adroddiad i archwilio ac adolygu'r opsiynau sydd ar gael i symud ymlaen gyda Cham 3 o'r prosiect Datblygu Lan y Môr, gyda chymorth cefnogwyr asedau allweddol. Derbyniwyd sylwadau yn ddiweddar oddi wrth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ac fe gwblheir yr adroddiad ar opsiynau a'i anfon ymlaen at Adran Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru i gael ei weithredu.

Penderfynwyd derbyn y diweddariad a'i nodi.

b) **Cofnod 48/19(d)(ii) – Pwyllgor Cofeb Rhyfel Hen Golwyn (eitem a ohiriwyd):**

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc bod y Cynghorydd Mark Jones wedi datgan ei ddiddordeb i ymuno a'r Pwyllgor i gymryd lle'r Cynghorydd D. Bradley, ac fe gadarnhaodd bod ganddo dal diddordeb. Cadarnhawyd gan Bwyllgor y Gofeb Rhyfel yr hoffent i ddau aelod yn unig o Hen Golwyn cael eu henwebu, ond nid oedd ganddynt unrhyw ffafriaeth am ba Ward oedd yn cael ei gynrychioli. Cytunodd y Cyngor y byddai'n well i benodi cynrychiolydd sydd â diddordeb ac yn barod / gallu mynychu cyfarfodydd yn hytrach na phoeni am ba ward oedd yn cael ei gynrychioli.

Penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Mark Jones i fod yn ail gynrychiolydd Cyngor Tref Bae Colwyn ar Bwyllgor Cofeb Rhyfel Hen Golwyn.

c. **Cofnod 48/19(d)(iii) – Artteffactau Dinesig o'r Ganolfan Ddinesig:**

Cyflwynodd y Clerc ymateb e-bost oddi wrth Helen Goddard, CBS Conwy, yn cadarnhau lleoliad y ddau ddarlun ac yn holi pa arteffactau dinesig eraill oedd yn parhau i gael eu storio yn y Ganolfan Ddinesig. Fe nodwyd bod hwn wedi cael ei drosglwyddo i'r Cynghorydd C. Hughes er mwyn iddo ychwanegu unrhyw wybodaeth bellach sydd ganddo.

ch **Cofnod 52/19 – Radio Bayside:**

Cyflwynodd y Clerc diweddariad e-bost oddi wrth Simon Wynn ynglŷn â thrwydded ar gyfer radio digidol bychan i ran o ardal Sir Conwy (yn caniatáu i hyd at 7 o orsafoedd darlledu) a rhoddodd adroddiad ar lafar am baratoi prydles newydd (yn disgwyl am ymateb gan GBSC os oeddynt yn barod / gallu cynnig cymorth cyfreithiol gyda hyn).

Penderfynwyd

(i) Rhoi awdurdod i lythyr o gefnogaeth cael ei ddanfon mewn perthynas â'r cais am drwydded newydd ar gyfer radio digidol bychan.

(ii) Rhoi awdurdod i'r Clerc ceisio cymorth gan dwrne lleol i baratoi'r brydles os nad yw tîm adran gyfreithiol CBSC yn gallu cynorthwyo.

d) ***Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:***

(i) **Cofnod 76/19 - Ciosgau Ffôn Diangen:** Ystyriodd yr Aelodau'r bwriad i fabwysiadu ciosgau ar Rhodfa'r Tywysogion, Ward Glyn ac yn Hen Golwyn.

Penderfynwyd cefnogi mabwysiadu'r ciosg ar Rhodfa'r Tywysogion (yn amodol ar dderbyn caniatâd CBSC ac i BID Colwyn cyflwyno ymgymeriad ysgrifenedig ynglŷn â chynnal a chadw parhaol ag yswiriant) ac i ohirio ystyriaeth o'r ddau giosg arall er mwyn i'r Clerc allu cysylltu â BT i holi a fyddai'n bosibl i gynnwys diffibriliwr ochr yn ochr â ffôn gweithredol, ac os nad yw'n bosibl, iddynt gyflwyno ystadegau am alwadau o'r ddau giosg.

(ii) **Cofnod 79/19 – 'Operation London Bridge':**

Penderfynwyd mabwysiadu'r cynllun gweithredol i'w ddefnyddio pan fo'r angen.

(iii) **Cofnod 82/19(a) – Grantiau Ieuenctid:**

Penderfynwyd clustnodi £5,000 o gyllideb Grantiau Ieuenctid tuag at gyllido cyfranogol, er mwyn i bobl ieuanc lleol cael bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, a rhoi awdurdod i'r Clerc cysylltu â gweithwyr / panelau ieuenctid i drafod eu cyfraniad.

(iv) **Cofnod 82/19(b) – Prif Ddigwyddiadau CBSC yn 2020:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar, gan roi amlinelliad bras o'r digwyddiad arfaethedig i deuluoedd bydd angen cefnogaeth ariannol gan y Cyngor Tref, BID Colwyn a ChBSC tuag ato.

Penderfynwyd cynnig cefnogaeth mewn egwyddor ar gyfer y digwyddiad ac i ofyn am fwy o fanylion am faint y gefnogaeth ariannol bydd ei angen unwaith daw mwy o wybodaeth i law am gostau / lleoliad / gweithgareddau ayb.

Fe nodwyd y manylion sylfaenol am brif ddigwyddiad arall na fyddai angen cefnogaeth ariannol

Cyflwynodd y Clerc e-bost oddi wrth GBSC yn cyfeirio at newid dyddiad Prom Xtra 2020 i ddydd Sadwrn 2^{il} Mai, oherwydd Gŵyl y Banc VE Day a'r dathliadau ar y penwythnos canlynol.

Penderfynwyd nodi / cefnogi'r newid yn y dyddiad a gofyn i'r Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio ystyried cysylltu â mudiadau lleol (DYCHMYGU, Grŵp Treftadaeth Colwyn, y Lleng Prydeinig) am y posibilrwydd o gynnal digwyddiad dathliadol.

dd) ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

107/19 **<u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>**

a) Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar am gyfarfod Bwrdd Rheoli Strategaeth Byw yn y Bae a gynhaliwyd ar 15^{fed} Gorffennaf. Roedd y

Cynghorwyr P. Richards a C. Hughes yn bresennol hefyd a chyflwynwyd adroddiadau byr ganddynt am faes parcio Douglas Road a mynediad i bobl gydag anableddau i'r traeth.

b) Rhoddodd y Cynghorydd H. Fleet adroddiad byr ar lafar am gyfarfod a fynychwyd ganddi gydag A. Pritchard i drafod gweithgareddau gwyrdd ar adeg Rali GB Cymru. Roedd wedi cyflwyno nifer o awgrymiadau am weithgareddau ychwanegol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd ac mi fydd yn adrodd yn ôl pan dderbynnir diweddariad pellach.

108/19 <u>BID Colwyn:</u>

(a) Cyflwynodd y Clerc gohebiaeth ynglŷn â chynrychiolaeth y Cyngor Tref ar Fwrdd BID.

Penderfynwyd cadarnhau penodiad y Cynghorydd D. Howcroft fel cynrychiolydd swyddogol Cyngor Tref Bae Colwyn ar Fwrdd BID (ac nid yn rhinwedd ei swydd fel perchennog busnes lleol).

(b) Cyflwynodd y Clerc hefyd e-bost oddi wrth BID Colwyn ynglŷn â'r posibilrwydd o gynlluniau i greu brand / logo ar gyfer ardal Bae Colwyn (yn dilyn cais / trafodaeth mewn cyfarfod DYCHMYGU Bae Colwyn, i gynnwys elfennau o logo BID a DYCHMYGU a defnyddio 'Bae Colwyn' er mwyn lleihau maint y testun). Gofynnwyd am syniadau cychwynnol yr Aelodau i'w bwydo i'r Grŵp. Roedd teimlad cyffredinol o siom am y ddelwedd ac yn petruso am ei angen / bwriad.

109/19 <u>Un Llais Cymru:</u>

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad am y Gynhadledd a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol sydd i'w gynnal ar 5ed Hydref 2019, er gwybodaeth, ac fe nodwyd hyn gan yr Aelodau.

110/19 <u>Amcan Brisiau am Waith:</u>

Cyflwynodd y Clerc ffeiliau cyfrinachol am amcan brisiau am y gwaith canlynol:
(a) 2 Bwrdd Anrhydedd i'w arddangos yn y Brif Siambr

Penderfynwyd derbyn amcan bris 1 (Gwyn Evans) ond bod y gwaith ysgrifenedig i'w gwblhau gan Racecraft Signs (2) am gyfanswm o £1,125 am ddau.

(b) Cyfnewid chwech o hen ddyfeisiau goleuadau rhydlyd yn yr adeilad gefn gyda chwech o ddyfeisiau LED newydd. Fe nodwyd bod y Clerc wedi ceisio cael trydydd amcan bris ond ni fu hyn yn bosibl yn y cyfnod amser byr oedd ar gael (mae'r denantiaeth wedi cychwyn erbyn hyn).

Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Clerc i ofyn a yw amcan bris 2 yn cynnwys TAW ac i dderbyn y rhataf o'r ddau amcan bris.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.05pm

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 22ND JULY 2019

PRESENT: The Mayor, Cllr N Bastow
Cllrs: G Baker; B Barton; C Brockley; H Fleet; C Hughes; M A Jones; Mrs M Jones; A Khan; C Matthews; T Pearson; M Pickard; P Richards; S Williams, M Worth
OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk
IN ATTENDANCE: Sergeant Debbie Ratcliffe, North Wales Police
County Councillors: B Cossey

452/18 Apologies for Absence:

The Mayor welcomed members to the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: D Bradley; D Howcroft; A Kealey; H Meredith; J Pearson; A Mason; K Swindon; M Tasker.

453/18 Announcements by the Mayor:

a) The Mayor reminded all members that volunteer traffic C are required for the annual bonfire and remembrance events to ensure any road closures are managed safely. A minimum of four Chapter 8 (Highways) trained volunteers are required for key locations at both events and accredited training will be arranged during the summer. Cllrs C Matthews and M Worth agreed to attend the training. If any other members are willing/able to assist, please contact the Clerk. If not, it was noted that the Council may need to pay for trained stewards from the traffic management company.

b) The Mayor advised the Council that a clasp on the reverse of the Mayoral chain is broken and it is therefore being sent away for repair to a specialist regalia company.

c) The Men's Shed are holding an Open Day was this weekend from 10am – 4pm (Saturday & Sunday)

d) The Mayor reported that he had unfortunately broken his leg in a recent accident, but is hoping to continue with engagements where possible.

454/18 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared

455/18 Visitors to the Council:

a. The Mayor welcomed Debbie Ratcliffe, Sergeant, North Wales Police, to address the Council regarding local policing issues and specifically problem solving.

   Debbie reported that the new Chief Constable is very keen on the Force using Community orientated problem solving (Cops), which takes

neighbourhood policing a step further and involved communities in identifying the true cause of issues and helping to find appropriate solutions, not just from within the limited police resources. PCSOs have been trained and will now be using this approach locally. Several examples were shared, including an instance of repeated reports of minor disturbances, which it turns out had resulted from an underlying problem of loneliness. Other agencies were brought in to help tackle the loneliness a.nd the reports then ceased. The basic concept is to scan the issue to find the root cause and then look for wider community resources to tackle it.

A question and answer session followed, with questions/comments made about: the problems with solution-led problem solving (which is not being used); the professional support available to PCSOs to assist them.

Debbie was then thanked for attending and retired from the meeting.

b. The Mayor welcomed County Councillor B Cossey to the meeting and invited him, plus Cllr Hughes and Cllr Khan, to give any reports/update on County Council matters.

Cllr Cossey gave a brief verbal update on the Pier, confirming that the contract had been awarded to a local company, Grosvenor Construction Ltd, and that it was well within the allocated budget. The works are expected to take 30 weeks and be completed by Easter 2020.

He then gave a brief update on the appointment of Cabinet and Chairs and Vice-Chairs, which had also now been completed, having taken some time to reach agreement.

Cllr C Hughes reported that there has been a slight delay in releasing the draft LDP for an eight-week period of public consultation and members were informed that this contains some significant development proposals for the Colwyn Bay area.

Resolved that a Special Meeting is convened, once the consultation is opened, with a Planning Officer present to give an overview of the proposals and respond to any questions from the Council.

Cllr Cossey then responded to a couple of brief questions from members.

The County Councillors were thanked for their reports and Cllr Cossey retired from the meeting.

456/18 <u>Minutes</u>:

a. ***Resolved to approve and sign, as a correct record the minutes of the last meeting of the Council, held on 10th June 2019.***

b. ***Resolved to <u>receive</u> a copy of the minutes of the following meetings:***
   i. The General Purpose & Planning Committee held on 18th June 2019.
   ii. The Policy & Finance Committee held on 3rd July 2019 (Draft).
   iii. The General Purpose & Planning Committee held on 9th July 2019 (Draft)

457/18 <u>Matters Arising from Those Minutes</u>:

a. **Min. 48/19(b) – Old Colwyn Promenade:**

The Clerk tabled an e-mail response from Owen Conry, CCBC, confirming that CCBC had commissioned a report to investigate and review options for implementing the third phase of the waterfront project, with the assistance of key asset stakeholders. Comments have recently been received from WG Transport and the options report will now be completed and passed on to the Flood and Coastal Erosion Risk Management section within the WG for action.

Resolved to receive and note the update.

b. **Min. 48/19(d)(ii) – Old Colwyn War Memorial Committee (deferred item):**

The Clerk reminded Members that Cllr Mark Jones had expressed an interest in joining the Committee, to replace Cllr D Bradley, and he confirmed he was still interested. The War Memorial Committee had confirmed that it would just like two Old Colwyn members to be nominated, but had no preference as to which wards they represented. The Council agreed it was preferable to appoint a representative who is interested and willing/able to attend meetings, than be concerned about which ward they were from.

Resolved to appoint Cllr Mark Jones as the Bay of Colwyn Town Council's second representative on the Old Colwyn War Memorial Committee.

c. **Min. 48/19(d)(iii) – Civic Artefacts from the Civic Centre**:

The Clerk submitted an e-mail response from Helen Goddard, Conwy CBC, confirming the location of two paintings and querying what other civic artefacts were still being stored at the Civic Centre. It was noted that this had been passed on to Cllr C Hughes to provide any further information he may have.

d. **Min 52/19 – Bayside Radio**:

The Clerk submitted an email update from Simon Wynn regarding a small scale digital radio licence for a section of Conwy county (allowing up to 7 stations to be broadcast) and gave a verbal report on the drawing up of the new lease (awaiting a response from CCBC as to whether they are willing/able to provide legal help with this).

Resolved to:
(i) Authorise the sending of a letter of support in connection with the application for a new small scale digital licence.
(ii) Authorise the Clerk to seek assistance from a local solicitor to draw up the lease if CCBC's legal team is not able to assist.

e. Resolved to endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:

i. Min 76/19 – Redundant Telephone Kiosks: Members considered the proposed adoption of kiosks on Princes Drive, Glyn Ward and in Old Colwyn.

Resolved to support the adoption of the Princes Drive kiosk (subject to CCBC consent and Colwyn BID to provide a written undertaking regarding ongoing maintenance and insurance) and to defer consideration of the other two kiosks to enable the Clerk to contact BT to enquire if a defibrillator could be accommodated alongside a working payphone and, if not, to provide call statistics for these two kiosks.

ii. Min 79/19 – Operation London Bridge:

Resolved to adopt the action plan for use when required.

iii. Min 82/19(a) Youth Grants:

Resolved to make £5,000 of the Youth Grants budget available by participatory budgeting, to involve local young people in the decision making, and to authorise the Clerk to contact the local youth workers/panels to discuss their involvement.

iv. Min 82/19(b) Conwy CBC Major Events 2020:

The Clerk gave a brief verbal report, giving a basic outline of the proposed family event, which will require funding support from the Town Council, Colwyn BID and CCBC.

Resolved to offer support in principle for the event and to request further dialogue about the amount of financial support required, once more information is known about costs / location / activities etc.

Basic details about another major event, which would not require any funding support, were also noted.

The Clerk tabled an e-mail from CCBC advising of a change of date for the Prom Xtra event in 2020 to Saturday 2nd May, due to the VE day Bank Holiday and celebrations the following weekend.

Resolved to note/support the date change and to request that the GP&P Committee considers contacting local organisations (IMAGINE, Colwyn Heritage Group, British Legion) with regards to potentially arranging a celebratory event..

f. ***Resolved to note the resolutions of the Committees as detailed in the Minutes.***

458/18 <u>Conwy CBC:</u>

a. The Clerk gave a brief verbal report on the Bay Life Strategic Management Board meeting held on 15th July. Cllr P Richards and Cllr C Hughes had also been in attendance and gave brief reports about Douglas Road car park and disabled access onto the beach.

b. Cllr H Fleet gave a brief verbal report on a meeting she had attended with A Pritchard to discuss green activities for the Wales Rally GB event. She had made several suggestions for additional activities, which are now being considered, and will report back when she receives any further update.

459/18 <u>Colwyn BID</u>:

a) The Clerk submitted correspondence regarding Town Council representation on the BID Board.

Resolved to re-affirm the appointment of Cllr D Howcroft as the formal representative of the Bay of Colwyn Town Council on the BID Board (and not in his capacity as a local business owner).

b) The Clerk also tabled an e-mail received from Colwyn BID regarding possible branding/logo designs for the Bay of Colwyn area (after a request/discussion at an IMAGINE Colwyn Bay meeting to incorporate elements of the BID and IMAGINE logos and using 'Bae Colwyn' to reduce the text). Initial views were requested from members, for feeding back to the group. There was a general feeling of disappointment with the image and uncertainty about its need/purpose.

460/18 <u>One Voice Wales</u>:

The Clerk submitted, for information, notice of the conference and AGM, to be held on 5th October 2019, which was noted by members.

461/18 <u>Quotation for Works:</u>

The Clerk tabled confidential quotation files for the following works:
(a) 2 no. new Honour Boards for display in the main Chamber.

Resolved to accept quotation 1. (Gwyn Evans) but with the lettering to be completed by Racecraft Signs (2.), at a total cost of £1,125 for two.

(b) Replacement of six old/rusty light fittings in rear annexe with six new LED fittings. It was noted that the Clerk had attempted to get a third quotation, but this had not been possible in the short timescale available (the tenancy has now commenced).

Resolved to delegate authority to the Clerk to query if quote 2 includes VAT and to accept the cheapest of the two quotations.

The meeting closed at 8.05pm

…...…… Chairman